



## Beth yw arloesi?

Pan fyddwch chi'n meddwl am arloesi efallai y bydd nifer o bethau'n dod i'ch meddwl, fel technoleg, sci-fi a Steve Jobs. Efallai eich bod yn meddwl bod arloesi'n cael ei wneud gan arbenigwyr, entrepreneuriaid a gwyddonwyr. Ond ar ei symlaf, arloesi yw **creu a gweithredu syniadau, dulliau, cynhyrchion neu ffyrdd newydd o weithio.**

Mae arloesi yn aml yn digwydd trwy **ymateb i anghenion gwasanaeth, defnyddiwr gwasanaeth neu grŵp poblogaeth neu trwy nodi problem ac archwilio datrysiad.** Gall unrhyw un arloesi: os ydych chi wedi rhoi model neu ffordd newydd o weithredu ar waith sydd wedi gwella pethau, **rydych chi'n arloeswr!**

### Diffinio Arloesi

Er ein bod wedi cynnig diffiniad o arloesi uchod, nid oes un diffiniad penodol o arloesi. Gall hyn ymddangos fel pe bai'n ei wneud yn fwy dryslyd ac anniriaethol, fodd bynnag mae'n adlewyrchu natur arloesi. Gofynnodd Idea to Value i 26 o 'arbenigwyr' arloesi sut y byddent yn diffinio'r term ac mae llawer o amrywiaeth, ond os byddwn yn edrych ar rai o'r atebion, gobeithio y bydd yna ddiffiniad sy'n berthnasol i chi ac yn dangos y gallech eisoes fod yn arloesi yn eich sefydliad heb sylweddoli hynny.

Troi syniad yn ateb sy'n ychwanegu gwerth

Unrhyw beth sy'n newydd, yn ddefnyddiol ac yn syndod

Mynd at bob sefyllfa gan ddweud 'sut allwn ni wneud hyn yn well?'

Cyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd sy'n ychwanegu gwerth at y sefydliad

Rydych chi'n edrych ar broblem neu her mewn ffordd sy'n arwain at fod yn well nag o'r blaen

Dylai arloesi wneud gwahaniaeth

Pan wnaeth Steve Jobs ei brif araith yn MacWorld ar 9 Ionawr 2007, cyhoeddodd ei fod yn datblygu tri chynnyrch:

- iPod sgrin lydan gyda rheolyddion cyffwrdd
- Ffôn symudol
- Cyfathrebwr Rhyngrwyd

Nid oedd yr un o'r tri pheth hyn yn newydd. Yr hyn a'i gwnaeth yn arloesol oedd cyfuno'r tair elfen yn un ddyfais sengl - yr iPhone. Mae hyn yn dangos nad yw pob peth arloesol yn newydd, yn yr ystyr nad oes rhaid i chi ddechrau'n llwyr o'r dechrau.

Mae llawer o ddatblygiadau arloesol yn ganlyniad i adeiladu ar yr hyn sy'n bodoli eisoes a'i addasu, gall fod yn broses sy'n esblygu. Fodd bynnag, wrth addasu ac adeiladu ar syniadau, cynhyrchion a dulliau presennol, mae'n hollbwysig ystyried goblygiadau eiddo deallusol. I ddysgu mwy am eiddo deallusol, darllenwch ein canllaw ac os oes gennych unrhyw amheuaeth, siaradwch â chydweithiwr profiadol neu arbenigwr mewn eiddo deallusol.

### Ydy pob peth newydd yn arloesol?

Er y gellir diffinio arloesi fel creu rhywbeth newydd, nid yw pob syniad, dull, cynnyrch neu ffordd newydd o weithio yn arloesol.

Er enghraifft, dychmygwch eich bod yn chwilio am ddull newydd o droi bara yn dost. Rydych wedi nodi, i wneud hynny, ei bod yn debyg y bydd angen ffynhonnell o wres arnoch. Rydych chi'n gwybod bod yr injan yn mynd yn boeth pan fyddwch chi'n gyrru'ch car. Felly rydych chi'n cymryd sleisen o fara, yn ei roi ar injan eich car ac yn ei yrru o gwmpas am awr.

Rydych chi'n agor y bonet a 'tada' - rydych chi wedi dod o hyd i ffordd newydd o droi bara yn dost!

Ond a yw'r dull newydd hwn yn arloesol? Efallai eich bod wedi dod o hyd i ffordd newydd o wneud hynny ond:

- Mae'n cymryd mwy o amser na thostiwr
- Mae'n defnyddio mwy o egni na thostiwr
- Mae'n costio mwy o arian na thostiwr
- Nid yw'r tost yn fwytadwy oherwydd ei fod wedi'i orchuddio ag olew, dail a beth bynnag arall sydd o dan fonet eich car!

Thema gyffredin yn y diffiniadau a gasglwyd gan Idea to Value, a rhywbeth sydd ar goll yn yr enghraifft tost uchod, yw gwerth. Mae gwerth yn elfen hanfodol o arloesi. Pan fydd pobl yn meddwl am werth, efallai y byddant yn meddwl am arian a chost, ac er bod gwerth hefyd yn cynnwys hynny, mae hefyd yn mynd ymhell y tu hwnt iddo. Mewn adroddiad blynyddol diweddar, mae Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Fiona Kinghorn, yn rhannu gwerth yn bedwar math neu 'golofn':

**Gwerth personol:** Pa ganlyniadau sy'n bwysig i'r unigolyn o'r gwasanaethau a dderbynnir, a sut mae'r gwir ganlyniadau'n cyfateb â'r canlyniadau yr oedd yr unigolyn yn gobeithio amdanynt

**Gwerth cymdeithasol:** Beth sy'n bwysig i'n poblogaeth leol. Fe'i gelwir hefyd yn 'werth poblogaeth', mae'n ystyried y gwerth y mae gwasanaethau'n ei gyfrannu at gymdeithas (e.e. helpu mwy o bobl i barhau yn gyflogedig i gefnogi'r economi)

**Dyrannu gwerth:** Ble y gellir dyrannu'r adnoddau sydd gennym orau. Er enghraifft, mae'r gwaith i annog pob cartref i osod larymau mwg wedi lleihau nifer y marwolaethau ac anafiadau oherwydd tân yn y DU dros y 30 mlynedd diwethaf

**Gwerth technegol:** A yw'r ymyriadau yn llwyddiannus mewn gwirionedd? Mae gwerth technegol yn ystyried pa mor dda y mae'r adnoddau rydym wedi'u dewis yn bodloni ein canlyniadau a'n nodau dymunol.

Felly pan fyddwch chi'n rhoi syniad newydd ar waith, gofynnwch gwestiynau fel:

- A yw'n sicrhau canlyniadau gwell i bobl?
- A yw'n fwy effeithlon?
- A yw'n fwy cynaliadwy?
- A yw'n fwy costeffeithiol?

Gallai sefydliadau roi gwerth ar bethau gwahanol, felly gallai deall y cyd-destun strategol roi syniad i chi o'r hyn y mae eich sefydliad yn ei ystyried yn werthfawr. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, edrychwch ar ein canllaw [Deall Cyd-destun Strategol](#).

# Gwybodaeth ychwanegol

Er mwyn arloesi'n llwyddiannus, mae yna ychydig o bethau i'w hystyried. Mae'r Hyb wedi mynd i'r afael â rhai o'r rhain yn ein cyfres Canllawiau Hyb RIC Caerdydd a'r Fro. Byddwn yn parhau i ychwanegu at y rhain, felly cadwch lygad allan yn rheolaidd i ddysgu mwy a chysylltwch os oes maes yr hoffech chi gael mwy o wybodaeth amdano.

## Deall Cyd-destun Strategol

Gall deall cyd-destun strategol a chyfeiriad eich sefydliad eich helpu i wybod beth mae eich sefydliad yn ei werthfawrogi

## Cynlluniau Peilot Llwyddiannus

Mae treialu yn rhan annatod o brofi dulliau arloesol a dangos sut y gellir addasu syniadau i amodau lleol

## Llywodraethu

Mae cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a sefydliadol yn cefnogi arloesi effeithiol a diogel.

## Metrigau perfformiad a chanlyniadau

Mae harneisio data yn helpu i adrodd stori eich datblygiadau arloesol a dangos yr effaith y mae eich gwaith yn ei chael

## Eiddo deallusol

Mae arloesi'n aml yn creu neu'n gwneud defnydd o eiddo deallusol. Mae deall hyn yn cefnogi arloesi a mabwysiadu effeithiol

## Dull sy'n Seiliedig ar Werthoedd

Mae rhoi gwerth wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yn golygu bod angen inni ailfeddwl sut y caiff gwasanaethau eu darparu, gan ychwanegu gwerth ar bob cam.

## Pam mae angen ein cynnwys mewn arloesi?

Mae Zoe Hilton, Rheolwr y Rhaglen Arloesi yn Llundain Newid, yn amlinellu pam mae syniadau a dulliau arloesi gwych yn gallu cael eu cyflwyno gan unrhyw un ac y dylent fod yn berthnasol i bawb.

## Beth yw arloesi? Mae 26 o arbenigwyr yn rhannu eu diffiniad o arloesi

gofynnodd Idea to Value i 26 o arloeswyr blaenllaw sut y byddent yn diffinio arloesi.

## 7 allwedd i greu diwylliant o arloesi

Mae Big Think yn cynnig 7 cydran allweddol o greu diwylliant o arloesi yn eich sefydliad

## Y Pethau Sylfaenol - Beth yw arloesi?

Mae Robyn Bolton, sylfaenydd a phrif lywiwr MileZero, yn darparu diffiniad o arloesi a sut y gallwn gategoreiddio arloesi

## Wyth hanfod arloesi

Mae McKinsey & Company yn trafod wyth hanfod arloesi

Edrychwch ar ein [gwefan](#) i weld mwy o'n gwaith neu cysylltwch â [Dylan.John4@wales.nhs.uk](mailto:Dylan.John4@wales.nhs.uk)